COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 19 MAWRTH 2026 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | ML Hughes | I Williams | R Williams |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | H Griffiths | D M Hughes | M R John |
| W J Kendall | J E Pratt | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Dion Douglas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Cymorth Cynllunio |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Steven Jenkins | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu |
| Robert Morgan | Prif Swyddog Rheoli Datblygu Priffyrdd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Leigh Tuck | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Huw Boaler | Uwch Swyddog Cynllunio |

## 217. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr canlynol:-<br>Y Cynghorydd Chris Davies<br>Y Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins<br>Y Cynghorydd Dave Harrison<br>Y Cynghorydd Alan Wathan |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

## 218. Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Datganodd y Cynghorydd S. Campbell fuddiant personol yn eitem agenda 7. Fodd bynnag, gan ei fod hefyd yn siarad ar ran Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, siaradodd ac yna gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth ac ni chymerodd ran yn y bleidlais ddilynol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

## 219. Cymeradwyo Cofnodion

| | | |
|---|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 05 Chwefror 2026, yn cael eu cymeradwyo fel cofnodion gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 | |

## 220. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Roedd y siaradwyr cyhoeddus canlynol wedi cofrestru i siarad yn y cyfarfod heddiw:-<br><br>Y Cynghorydd F. Bletsoe;<br>Y Cynghorydd S. Bletsoe;<br>Y Cynghorydd T Wood;<br>Y Cynghorydd Williams;<br>Steffan Harries;<br>Hannah Lewis;<br>Y Cynghorydd P Davies;<br>P. Mehegan;<br>Rob Hathaway. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

## 221. Dalen Ddiwygio

| | | |
|---|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod y Cadeirydd wedi derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor. Roedd hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried unrhyw addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried unrhyw sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen ymdrin â nhw. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 | |

## 222. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y dangosir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

**223. P/22/845/FUL - Tŷ Sunnyside, Sunnyside Road, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AF**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Y Cynnig:<br><br>Dymchwel Tŷ Sunnyside; datblygiad arfaethedig o 62 o fflatiau un ystafell wely a gwaith cysylltiedig gan gynnwys draenio cynaliadwy, tirlunio, parcio beiciau a cheir a gwaith arall<br>Tŷ Sunnyside, Sunnyside Road, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AF<br><br>Gofynnwyd am bleidlais gan y Cynghorydd Mark John ar y cais uchod.  Dyma oedd y canlyniad:<br><br>O blaid  Yn erbyn  Yn ymatal<br>5  3  1<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Swyddog, gan gynnwys newidiadau ar y daflen ddiwygio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

**224. P/25/386/BCB - Cartref Nyrsio Bryn y Cae, Cae Bracla, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 2HF**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Y Cynnig:<br><br>Gosod system Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer gydag offer y tu allan hefyd gan gynnwys piler bwydo ar sylfaen goncrit gyda sgrin llyncu sŵn. Cartref Nyrsio Bryn y Cae, Cae Bracla, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 2HF<br><br>Gofynnodd y Cynghorydd Ian Williams am bleidlais ar y cais uchod. Dyma oedd y canlyniad:<br><br>O blaid Yn erbyn Yn ymatal<br>6 4 0<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Swyddog, gan gynnwys newidiadau ar y daflen ddiwygio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

## 225. P/25/700/FUL - 21 Humphreys Terrace, Caerau, Maesteg CF34 0SG

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Y Cynnig:<br>Newid defnydd annedd breswyl 4 ystafell wely (dosbarth defnydd C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth 5 gwely (uchafswm o 5 person) (Dosbarth Defnydd C4). 21 Humphreys Terrace, Caerau, Maesteg CF34 0SG<br><br>Cynhaliwyd pleidlais ar y cais uchod. Cyn y siaradwr, cyflwyniad y Swyddog a'r drafodaeth ar yr eitem agenda hon newidiodd presenoldeb aelodau PRhDC yn y cyfarfod fel a ganlyn:<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Richard Williams a'r Cynghorydd Mark John y cyfarfod<br>Ymunodd y Cynghorydd Heather Griffiths â'r cyfarfod.<br><br>Dyma oedd y canlyniad:<br><br>O blaid Yn erbyn Yn ymatal |

| | |
|---|---|
| | 5 4 0<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Swyddog, gan gynnwys newidiadau ar y daflen ddiwygio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

**226. P/25/735/RES - Tir y tu ôl i 95 Merthyr Mawr Road, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3EU**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Y Cynnig:<br><br>Annedd ar wahân - Cais am gymeradwyaeth ar gyfer materion wedi'u cadw yn ôl (Mynediad, Ymddangosiad, Tirwedd, Cynllun, Graddfa) mewn perthynas â Chais P/24/541/OUT. Tir y tu ôl i 95 Merthyr Mawr Road, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3EU<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar un diwygiad i symud lleoliad yr annedd 1m yn nes at Heol Gam. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

**227. Apeliadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi'r apeliadau oedd wedi'u derbyn ers cyfarfod diwethaf y |

| | |
|---|---|
| | Pwyllgor fel y manylir arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

**228. Adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y PRhD ar gyfer PRhD arbennig ym mis Ebrill 2026 ar gyfer Safle Strategol Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr a Safle Tai Dyrannedig Craig y Parcau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu ac Adeiladu adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cais ar gyfer Safle Strategol y Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod yr ymgeisydd wedi gofyn i'r eitem hon gael ei gohirio i gyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu ym mis Mehefin 2026.<br><br>Gofynnodd i gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu Arbennig sydd wedi'i drefnu ar gyfer 9 Ebrill 2026 aros yn y calendr oherwydd cais arall (safle tai dyrannedig Craig Y Parcau) y maen ei amseriad yn hollbwysig. Bydd yr ymweliad â’r safle yn aros yn y calendr hefyd.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn cytuno ar y canlynol:-<br><br>(1) Y dylid cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i ystyried Cais P/25/731/FUL ar ddydd Iau 9 Ebrill 2026 a chytunwyd i ohirio'r Cais P/25/507/HYB (TIGN) i gyfarfod arferol PRhD ym mis Mehefin 2026<br><br>(2) Y dylai'r fformat ar gyfer y rhaglen ar ddiwrnod y Pwyllgor RhD Arbennig fod fel y disgrifir yn gyffredinol yn yr adroddiad hwn ond yn amodol ar unrhyw newidiadau y byddai’r Cadeirydd yn eu cytuno â'r Cyfarwyddwr Cymunedau.<br><br>(3) Bod hawliau siarad ar gyfer Ceisiadau P/25/507/HYB a P/25/731/FUL yn cael eu hymestyn i uchafswm o 6 munud ar gyfer pob siaradwr sydd wedi'i gofrestru ar y rhestr, a allai gynnwys uchafswm o 3 gwrthwynebydd unigol, y Cynghorau Cymuned, Aelod Ward Lleol a'r Ymgeisydd/Asiant. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

## 229. Cofnod Hyfforddi

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau yn amlinellu'r sesiynau hyfforddi sydd i ddod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

## 230. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mawrth 2026 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 13:07.